PERKINS, WILLIAM (fl. 1745-76), gweinidog Annibynnol

Enw: William Perkins
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Annibynnol
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: John Dyfnallt Owen

Ni wyddys ddim am ei addysg fore ond yn ôl rhestr Wilson (copi yn NLW MS 373C) yr oedd un Perkins yn academi Caerfyrddin yn 1745, yng nghyfnod Evan Davies. Ni sonia Thomas Morgan (Henllan) amdano, ac ni cheir ei enw ymhlith y myfyrwyr a dderbyniai roddion oddi wrth y Bwrdd Presbyteraidd a'r Bwrdd Cynulleidfaol yn y cyfnod hwnnw; ond nid yw hynny'n brawf nad oedd yn yr academi. Bu'n weinidog yn Ninbych o 1767 i 1769, ac yng Nghaerfyrddin yr addysgwyd ei ddau ragflaenydd yn yr eglwys honno. Rhwng 1770 a 1776 fe'i ceir yn weinidog ar eglwysi Pencader a Phantycreuddyn. Derbyniodd rodd oddi wrth y Bwrdd Cynulleidfaol - ' 4 November 1776. Extraordinary Supply. William Perkins, Pencader, Carmarthenshire £5. ' Yr oedd yn bregethwr galluog, poblogaidd, a dawnus, ond yn anghymedrol ei rodiad. Wedi methu ei ddiwygio bu'n rhaid i'r eglwysi ei wahardd i weinidogaethu iddynt, a pharodd hynny ymraniadau yn eu plith. Glynodd amryw o'i braidd wrtho, ond edwinodd yr eglwys ym Mhantycreuddyn, wedi sefydlu eglwys Horeb. Bu ymraniad mawr ym Mhencader a chododd cefnogwyr Perkins gapel newydd Salem, ger New Inn, tua dwy filltir o Bencader. Yr oedd gweithred capel Pencader yng ngofal un o'i gefnogwyr, a gwelwyd oddi wrth honno mai gan y gweinidog yr oedd yr hawl i'r capel. Pan adfeddiannwyd y capel gan y gweinidog, aeth mwyafrif yr aelodau allan i addoli mewn ty yn agos i Gwmhwplin. Yn 1785, adeiladwyd capel newydd a alwyd yn Bencader, a rhoddwyd galwad i Jonathan Jones fod yn weinidog yno. Gwaethygodd rhagolygon William Perkins yn fuan, a gwerthodd i'r eglwys ei hawl ar yr hen gapel. Symudodd i Gydweli a thrachefn i Lundain, lle y cafodd swydd dan y Llywodraeth ar afon Llundain. Yno y bu farw, ond ni wyddys pa bryd.

Awdur

Y Parchedig John Dyfnallt Owen , (1873 - 1956)

Ffynonellau

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, iii, 424; iv, 44

Llawysgrifau Jeremy, List of Ministers

Minutes of Cong. Fund Board, 4 Tachwedd 1776

David Morgan, *Hanes Ymneillduaeth yn cynnwys olrheiniad manwl o'r egwyddorion hanfodol a'r ymarferiadau perthynol i'r cyfundraeth uchod ei ddechreuad a'i ledaeniad llwyddianus yn y deyrnas hon, yn wyneb y gwrthwynebiadau mwyaf cyffrous, yn nghyda'i sefyllfa bresenol yn enwedig yn Nghymru* (Dolgellau 1855), 198, 407-8

Archifau LlGC: NLW MS 373C: Reverend Thomas Rees: Historical memoranda

Walter J. Evans, NLW MS 10329B: Carmarthen Presbyterian College roll of students

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20748904

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Owen, J. D., (1953). PERKINS, WILLIAM (fl. 1745-76), gweinidog Annibynnol. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PERK-WIL-1745

Copïo'r clipfwrdd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government